NDA Monthly Update

August 2016

Summary

- NDA Chief Executive set to retire
- High court judgment in damages claim
- New government department for NDA
- Low Level Waste vaults given go-ahead
- Entries invited for 2016 supply chain awards
- Hunterston bunkers emptied
- Berkeley waste retrievals
- NDA annual report published
- Bradwell vaults decontaminated
- Cumbrian training facility for nuclear police under way
- £12 million for research contracts
- Sellafield opens door to silos waste removal
- Major milestone at historic Sellafield fuel pond

Diary Dates

• World Nuclear Decommissioning and Waste Management Congress (Europe) 2016	12-14 September
• Calder Hall's 60th anniversary	October
• 2016 NDA Estate Supply Chain Event, Manchester	3 November

Nuclear Decommissioning Authority

NDA Chief Executive to retire

NDA Chief Executive John Clarke will be retiring in the course of the next year. The announcement was made by NDA Chairman Stephen Henwood, who said: "John has made a major contribution to the NDA and its mission to safely clean up the UK's nuclear legacy. Through his leadership, drive and commitment, John has improved performance at Sellafield with a new operating model, delivered an integrated approach to accelerating decommissioning across the estate and created an optimised strategy, resulting in increased value to the taxpayer. The NDA has made great progress under John's leadership, but I recognise that the CEO role is all-consuming and places great demands on both the individual and their family. I must therefore respect John's wishes and reluctantly accept his decision to retire."

Weblink: NDA CEO retirement announced

Judge's ruling in ES vs NDA case

A High Court judge has ruled against the NDA following a four-week trial to examine the claim for damages submitted by Energy*Solutions* EU (now named ATK Energy EU and owned by WS Atkins) over its unsuccessful 2014 bid to secure the Parent Body Organisation (PBO) contract for the 12 Magnox and RSRL sites. Further hearings will now follow to assess whether damages are merited and, if so, to establish the level of damages. Energy*Solutions* EU are seeking damages only and have not challenged award of the contract to the Cavendish Fluor Partnership.

Departmental change

Following changes in a number of government departments, the NDA now reports to the newly created Department for Business, Energy and Industry Strategy (BEIS).

Vaults given go-ahead

Planners in Cumbria have given the go-ahead for two new vaults at the UK's Low Level Waste Repository (LLWR), along with an extension to a third vault. The news will ensure the future of the facility, near Drigg, until 2050, creating around 120 construction jobs and securing existing roles. LLWR was opened in 1957 as the only UK location for the disposal of solid waste containing low levels of radioactivity. It provides an essential service for NDA sites as well as other industries that produce low level waste (LLW). More than £100 million has been invested in the site's infrastructure over the past decade to maintain it as an important national asset.

Weblink: Planning approval secured at LLWR

Entries invited for business awards

Entries are now being invited for the annual supply chain awards which will be a feature of the 2016 NDA Estate Supply Chain Event on Thursday, 3rd November. The

submission deadline for the awards, which acknowledge the vital role played by the estate's wide diversity of contractors, is 9th September. The supply chain event is sponsored jointly by the NDA and its Site Licence Companies and again takes place at EventCity in Manchester. One of this year's key speakers will be John Manzoni, Chief Executive of the Civil Service and Permanent Secretary (Cabinet Office). Last year, the event attracted a record 1,500 visitors.

Weblink: NDA Estate Supply Chain Event and Awards

Bunkers emptied

The second of Hunterston's five concrete waste bunkers has now been successfully emptied of its hazardous contents – six weeks ahead of schedule. Using remotely operated vehicles, more than 650 tonnes of radioactive graphite and metallic waste were lifted before being packed into specially engineered stainless steel boxes.

Weblink: Hunterston bunkers

Berkeley vaults success

Waste is finally being retrieved from underground chambers at Berkeley and is being sorted ready for safe storage in the Interim Storage Facility (ISF). Around 620 tonnes of metallic fuel element debris (FED) and 6,665 containers, some of which are sludge cans, were housed in three vaults. A single silo, meanwhile, houses charge rods and the chutes used to discharge fuel from the reactors. Berkeley stores a uniquely complex range of mixed waste produced by the power station and neighbouring lab complex which carried out research for the UK nuclear industry.

Weblink: Waste retrieved from bunkers

NDA Annual Report and Accounts published

The NDA has now published its Annual Report and Accounts 2015/16, which highlight major milestones in hazard reduction. It includes an overview from the Chief Executive Officer John Clarke, audited financial statements, a summary of key milestones and activities for each of the Site Licence Companies and subsidiaries.

Weblink: 2015-16 Annual Report and Accounts

Bradwell vaults decontaminated

Bradwell has become the first Magnox site to empty and decontaminate its underground waste storage vaults ready for the Care and Maintenance (C&M) phase. Waste, including metal, sand and sludge, was stored in 18 vaults during operations. A primary aim has been to safely recover the waste, characterise it and find the most suitable treatment or disposal route. Some is being treated in a specially designed dissolution plant, while other types of waste are being conditioned and packaged for interim storage.

Weblink: Bradwell vaults success

New training facility for nuclear police

Construction is under way in Cumbria of a new £39 million training facility for the Civil Nuclear Constabulary (CNC) who guard the Sellafield site. The facility will consist of a four-storey hub with classrooms, operational stores and offices, alongside communal use areas. Two connected buildings will house live fire training arenas. The facility will be owned and developed by the NDA and leased to the CNC.

Weblink: New police training facility

£12 million for research

R&D framework contracts worth up to £12 million were awarded to a series of consortia, as NDA seeks innovative solutions to technical challenges. Among the organisations involved are UK universities, global corporations and around 20 Small and Medium-sized Enterprises (SMEs). The NDA's Direct Research Portfolio (DRP) forms a key part of the NDA's strategic research programme and focuses on direct funding for research that delivers innovation across multiple sites, develops technical expertise and informs NDA's strategy. The three new framework contracts were awarded to 10 consortia, involving more than 70 organisations and including three consortia led by SMEs. The contracts, last awarded in 2012, will cover the next four years.

Weblink: Research contracts

Opening doors to Sellafield hazard removal

One of Sellafield's most hazardous buildings is a step closer to being cleaned up after a major engineering task was completed. The historic Pile Fuel Cladding Silo contains waste from the site's earliest days, when the site was focused on weapons-related activities, and is one of the most challenging tasks in the NDA estate. Installation of a huge 40-tonne, 9-metre wide steel door frame on the side of the building marks a crucial step. This will allow doors to be hung, behind which holes will be cut so the waste can be removed by retrieval machines.

Weblink: Sellafield engineering feat

Major milestone at historic Sellafield pond

The most significant stride ever was achieved in the Sellafield clean-up mission when the entire bulk stocks of historic nuclear fuel were removed from one of the oldest ponds. The milestone came after the final skip of 'metal fuel' was lifted from the Pile Fuel Storage Pond via remote control. The work means radioactivity levels at the 68-year-old spent fuel pond have been cut by 70%, vastly reducing the risk it poses to people and environment. The fuel has been transferred to a modern on-site storage building.

Weblink: Sellafield pond achievement

Diweddariad Misol yr NDA

Awst 2016

Crynodeb

- Prif Weithredwr yr NDA yn bwriadu ymddeol
- Dyfarniad yr Uchel Lys yng nghyswllt hawlio iawndal
- Adran newydd o'r llywodraeth i'r NDA
- Rhoi caniatâd i fowtiau Gwastraff Lefel Isel
- Gwahodd ceisiadau ar gyfer gwobrau cadwyn gyflenwi 2016
- Bynceri Hunterston wedi'u gwagio
- Adfer gwastraff yn Berkeley
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol yr NDA
- Dadlygru fowtiau Bradwell
- Cyfleuster hyfforddi Cumbria ar gyfer heddlu niwclear ar droed
- £12 miliwn ar gyfer contractau ymchwil
- Sellafield yn agor ei drysau i symud gwastraff seilos
- Carreg filltir bwysig ym mhwll tanwydd hanesyddol Sellafield

Dyddiadau i'r Dyddiadur

- Cyngres Datgomisiynu Niwclear a Rheoli Gwastraff y Byd (Ewrop) 2016 12-14 Medi
- Pen Blwydd Neuadd Calder yn 60 oed Hydref
- Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA 2016, Manceinion 3 Tachwedd

Nuclear Decommissioning Authority

Diweddariad Misol yr NDA – Awst 2016

Prif Weithredwr yr NDA yn bwriadu ymddeol

Bydd John Clarke, Prif Weithredwr yr NDA, yn ymddeol yn ystod y flwyddyn nesaf. Cyhoeddwyd y newyddion gan Stephen Henwood, Cadeirydd yr NDA, a ddywedodd: “Mae John wedi gwneud cyfraniad mawr i'r NDA ac i'w nod o lanhau gwaddol niwclear y DU yn ddiogel. Yn sgil ei arweiniad, ei egni a’i ymrwymiad, mae John wedi gwella perfformiad yn Sellafield gyda model gweithredu newydd, wedi sefydlu dull integredig o gyflymu’r broses o ddatgomisiynu ledled yr ystâd yn ogystal â llunio’r strategaeth orau posib sy’n golygu mwy o werth i’r trethdalwr. Mae’r NDA wedi gwneud cynnydd mawr o dan arweiniad John, ond rwy’n cydnabod bod swydd y Prif Weithredwr yn gofyn llawer ac yn rhoi pwysau ar yr unigolyn a’i deulu. Felly, er mawr ofid i mi, mae’n rhaid i mi barchu dymuniad John a derbyn ei benderfyniad i ymddeol.

Dolen we: Cyhoeddi ymddeoliad Prif Weithredwr yr NDA

Penderfyniad y barnwr yn achos ES yn erbyn yr NDA

Mae barnwr Uchel Lys wedi gwneud penderfyniad yn erbyn yr NDA yn dilyn treial pedair wythnos i ymchwilio i’r hawliad am iawndal a gyflwynwyd gan Energy*Solutions* EU (a elwir bellach yn ATK Energy EU ac sy’n eiddo i WS Atkins) yn sgil ei gynnig am gontract gyda’r Rhiant Gorff ar gyfer 12 o safleoedd Magnox ac RSRL. Bydd gwrandawiadau eraill yn cael eu cynnal er mwyn asesu a yw'r cais am iawndal yn deilwng ac, os felly, sefydlu swm yr iawndal. Mae Energy*Solutions* EU yn gofyn am iawndal yn unig ac nid yw wedi herio’r penderfyniad i ddyfarnu'r contract i Bartneriaeth Cavendish Fluor.

Newid adrannol

Yn dilyn newidiadau mewn nifer o adrannau llywodraeth, mae'r NDA yn adrodd yn ôl yn awr i’r Adran Strategaeth Diwydiant, Busnes ac Ynni sydd wedi’i chreu o'r newydd.

Rhoi caniatâd i fowtiau

Mae cynllunwyr yn Cumbria wedi rhoi caniatâd i ddwy fowt newydd gael eu hadeiladu yn Storfa Gwastraff Lefel Isel y DU ynghyd ag estyniad i drydedd fowt. Bydd y newyddion yn diogelu dyfodol y cyfleuster ger Drigg tan 2050, gan greu tua 120 o swyddi adeiladu a diogelu’r swyddi presennol. Agorwyd y Storfa yn 1957 fel yr unig leoliad yn y DU ar gyfer cael gwared ar wastraff solet sy’n cynnwys lefelau isel o ymbelydredd. Mae’n darparu gwasanaeth hanfodol i safleoedd yr NDA a hefyd i ddiwydiannau eraill sy’n cynhyrchu gwastraff lefel isel. Mae mwy na £100 miliwn wedi cael ei fuddsoddi yn seilwaith y safle yn ystod y degawd diwethaf i’w gynnal fel ased cenedlaethol pwysig.

Dolen we: Sicrhau cymeradwyaeth gynllunio mewn Storfa Gwastraff Lefel Isel

Gwahodd ceisiadau ar gyfer gwobrau busnes

Mae ceisiadau’n cael eu derbyn nawr ar gyfer y gwobrau cadwyn gyflenwi blynyddol, a fydd yn rhan o Ddigwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA 2016 a gynhelir ddydd Iau 3

Tachwedd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer y gwobrau, sy'n cydnabod cyfraniad hollbwysig yr amrywiaeth helaeth o gontractwyr sy'n gweithio i'r ystâd, yw 9 Medi. Noddir y digwyddiad ar y cyd gan yr NDA a'i Gwmnïau Trwyddedu Safle, a bydd yn cael ei gynnal yn EventCity ym Manceinion unwaith eto. Un o'r prif siaradwyr eleni fydd John Manzoni, Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Sifil (Swyddfa'r Cabinet). Y llynedd denodd y digwyddiad fwy o ymwelwyr nag erioed, sef 1,500.

Dolen we: Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA a'r Gwobrau

Bynceri wedi'u gwagio

Mae'r cynnwys peryglus wedi cael ei wagio o'r ail fyncer gwastraff concrid o bump yn Hunterston – a hynny chwe wythnos yn gynt na'r disgwyl. Gan ddefnyddio cerbydau a reolir o bell, cafodd 650 o dunelli o graffit ymbelydrol a gwastraff metalig eu codi a'u pacio mewn bocsys dur gwrthstaen wedi'u creu'n arbennig.

Dolen we: Bynceri Hunterston

Llwyddiant yn fowtiau Berkeley

O'r diwedd mae gwastraff yn cael ei adfer o'r siambrau tanddaearol yn Berkeley ac mae'n cael ei drefnu er mwyn cael ei storio'n ddiogel yn y Cyfleuster Storio Dros Dro (ISF). Roedd tua 620 o dunelli o Weddillion Elfennau Tanwydd (FED) a 6,665 o gynwysyddion, rhai yn cynnwys slwtsh, mewn tair fowt. Yn ogystal â hyn, mae seilo yno sy'n cynnwys ffyn wedi'u gwefru a phibellau sy'n cael eu defnyddio i ddadlwytho'r tanwydd o'r adweithyddion. Mae Berkeley yn storio ystod gymhleth ac unigryw o wastraff cymysg a gafodd ei gynhyrchu gan yr orsaf bŵer a'r labordy cyfagos a fu'n gwneud ymchwil ar gyfer diwydiant niwclear y DU.

Dolen we: Adfer gwastraff o fynceri

Cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr NDA

Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei Adroddiad a'i Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2015/16 yn awr, sy'n tynnu sylw at y cerrig milltir pwysig i leihau peryglon. Mae'n cynnwys trosolwg gan y Prif Swyddog Gweithredol, John Clarke, datganiadau ariannol wedi'u harchwilio, a chrynodeb o'r cerrig milltir a'r gweithgareddau allweddol ar gyfer pob un o'r Cwmnïau Trwyddedu Safle a'r is-gwmnïau.

Dolen we: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2015/-16

Dadlygru fowtiau Bradwell

Bradwell yw safle cyntaf Magnox i wagio a dadlygru ei fowtiau storio gwastraff dan y ddaear yn barod ar gyfer y cam Gofal a Chynnal a Chadw. Roedd gwastraff, gan gynnwys metel, tywod a slwtsh, yn cael ei storio mewn 18 o fowtiau yn ystod cyfnod gweithredol y safle. Un o'r prif nodau yw adfer y gwastraff yn ddiogel, ei nodweddu a

chanfod y driniaeth neu'r llwybr gwaredu mwyaf addas. Mae rhywfaint yn cael ei drin ar safle ymdoddi sy'n cael ei gynllunio'n arbennig, ac mae mathau eraill o wastraff yn cael eu cyflyru a'u pecynnu ar gyfer eu storio dros dro.

Dolen we: Llwyddiant yn fowtiau Bradwell

Cyfleuster hyfforddi newydd ar gyfer heddlu niwclear

Yn Cumbria, mae'r gwaith adeiladu ar droed ar gyfleuster hyfforddi newydd gwerth £39 miliwn ar gyfer yr Heddlu Niwclear Sifil (HNS) sy'n gwarchod safle Sellafield. Bydd y cyfleuster yn cynnwys canolfan pedwar llawr gydag ystafelloedd dosbarth, storfeydd gweithredol a swyddfeydd, ochr yn ochr ag ardaloedd defnydd cyffredin. Bydd dau adeilad cysylltiedig yn gartref i'r meysydd hyfforddiant tân. Bydd y cyfleuster yn eiddo i'r NDA ac yn cael ei ddatblygu ganddo a'i brydlesu i'r HNS.

Dolen we: Cyfleuster hyfforddi heddlu newydd

£12 miliwn ar gyfer ymchwil

Dyfarnwyd contract fframwaith ymchwil a datblygu gwerth hyd at £12 miliwn i gyfres o gonsortia, wrth i'r NDA geisio canfod datrysiadau arloesol i heriau technegol. Ymhlith y sefydliadau cysylltiedig mae prifysgolion y DU, corfforaethau byd-eang a thua 20 o Fusnesau Bach a Chanolig. Mae Portffolio Ymchwil Uniongyrchol yr NDA yn rhan allweddol o raglen ymchwil strategol yr NDA ac mae'n canolbwyntio ar gyllid uniongyrchol ar gyfer ymchwil sy'n arloesi ar draws sawl safle, yn datblygu arbenigedd technegol ac yn sail i strategaeth yr NDA. Dyfarnwyd y tri chontract fframwaith newydd i 10 consortia, gan gynnwys mwy na 70 o sefydliadau ac yn cynnwys tri chonsortia o dan arweiniad busnesau bach a chanolig. Bydd y contractau, a ddyfarnwyd ddiwethaf yn 2012, yn para am y pedair blynedd nesaf.

Dolen we: Contractau ymchwil

Agor drysau i gael gwared â pheryglon Sellafield

Mae un o adeiladau mwyaf peryglus Sellafield gam yn nes at gael ei lanhau ar ôl cwblhau tasg beirianneg fawr. Mae'r Seilo Cladin Tanwydd Pentwr hanesyddol yn cynnwys gwastraff o ddyddiau cynharaf y safle, pan oedd ffocws y safle ar weithgareddau cysylltiedig ag arfau, a dyma un o dasgau mwyaf heriol ystâd yr NDA. Mae gosod fframe drws dur enfawr, 40 tunnell a 9 metr o led, ar ochr yr adeilad yn gam hanfodol. Bydd hyn yn galluogi i ddrysau gael eu hongian a'r tu ôl iddynt bydd tyllau'n cael eu torri fel bod posib i beiriannau adfer symud y gwastraff.

Dolen we: Gorchest beirianneg Sellafield

Carreg filltir bwysig ym mhwll hanesyddol Sellafield

Cymerwyd y cam mwyaf arwyddocaol erioed yn yr ymgyrch i lanhau Sellafield pan gafodd yr holl stoc o danwydd niwclear hanesyddol ei symud o un o'r pyllau hynaf.

Daeth y garreg filltir ar ôl i'r sgip derfynol o 'danwydd metel' gael ei chodi o'r Pwll Storio Tanwydd Pentwr drwy gyfrwng teclyn rheoli o bell. Mae'r gwaith yn golygu bod y lefelau ymbelydredd yn y pwll tanwydd treuliedig 68 oed wedi cael eu lleihau 70%, gan ostwng y risg i bobl a'r amgylchedd yn fawr. Mae'r tanwydd wedi cael ei drosglwyddo i adeilad storio modern ar y safle.

Dolen we: Cyflawniad pwll Sellafield